

Beth yw hawliau plant?

Ydych chi wedi clywed am **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**?

Rhestr o hawliau yw'r Confensiwn sydd gan bob plentyn 0-18 oed.

Mae hawliau yn sicrhau ein bod ni i gyd yn cael ein trin yn deg, yn gallu cyflawni ein potensial ac yn gallu codi ein llais. Mae gan fabanod a phlant ifanc hawliau ychwanegol i oedolion, am fod angen amddiffyniad ychwanegol arnynt a'u bod yn ddibynnol iawn ar yr oedolion o'u cwmpas. Er mwyn sicrhau hawliau plant, dylai'r oedolion hyn ystyried yr hyn sydd orau i fabanod a phlant ifanc yn eu bywydau o ddydd i ddydd, i wneud yn siŵr eu bod yn cael mwynhau eu hawliau a bod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel.

Yn y pen draw, mae'n ymwneud â'r hyn sydd ei angen ar bob babi a phlentyn ifanc i dyfu i fod yn **Hapus, yn iach ac yn Ddiogel**.

Nid rhywbeth i osod gofynion ychwanegol arnoch chi yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Nid yw chwaith yn golygu y gall babanod a phlant ifanc wneud beth bynnag maen nhw ei eisiau pryd bynnag maen nhw eisiau! Yn hytrach, mae'n rhoi'r ddealltwriaeth a'r gefnogaeth ichi i sicrhau bod babanod a phlant ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.

Sut i gefnogi hawliau babanod a phlant ifanc

Dyma fi! (0-12 mis oed)

Dw i'n darganfod beth yw fy hawliau drwy sut mae eraill yn fy nhrin ac yn gofalu amdanaf. Mae popeth yn newydd imi; mae angen i'r oedolion pwysig sydd o'm cwmpas fy nghadw'n agos a chymryd amser i ddangos pethau newydd imi, wrth imi wneud synnwyr o'r byd mewn ffordd dawel a diogel. Siaradwch â mi, rhowch bethau imi eu teimlo, eu cyffwrdd, eu blasu, i edrych a gwranddo arnyn nhw, dw i eisiau darganfod sut mae pethau'n gweithio. Dw i angen i bawb ystyried sut dw i'n gweld y byd, a sut y byddwn i'n teimlo, cyn gwneud unrhyw benderfyniadau mawr.

Efallai nad ydw i'n gallu siarad, ond dw i eisoes yn cyfathrebu â chi. Gwylwch ystumiau fy wyneb, fy symudiadau a'r synau dw i'n eu creu; dyma fy iaith i, ymhen amser mi ddewch chi i ddysgu beth mae'r cyfan yn ei olygu. Wrth ichi wrando arna i, mi ddewch chi i'm deall yn fwy. Ydw, dw i'n crio, ond ceisio dweud rhywbeth ydw i.

Dw i'n archwilio! (1-2 flwydd oed)

Dw i'n darganfod beth yw fy hawliau wrth i chi fy arwain a'm cefnogi a darparu cyfleoedd imi roi cynnig ar bethau newydd a gwneud dewisiadau. Dw i'n dal i hoffi gwybod ble rydych chi a'ch gweld chi'n agos. Dw i'n teimlo'n ddiogel pan fydd pethau'n gyfarwydd, a phan fydd pawb yn gwybod beth dw i'n ei hoffi ac nad ydw i'n ei hoffi. Mae gen i fy mhersonoliaeth unigryw fy hun; ond mae angen help arna i i'w darganfod. Gwylwch fi i weld beth dw i'n ei wneud; a dewch i nabod fy nheulu a phwy ydw i.

Efallai eich bod yn fy neall yn well nawr, wrth imi ddechrau pwyntio, eich arwain i lefydd, a siarad am yr hyn dw i ei eisiau a'i angen. Rhowch amser a lle imi gan nad yw pawb yn deall neu'n gwybod am fy ffyrdd bach arbennig, wrth imi ddechrau archwilio'r byd o'm cwmpas. Dw i angen ichi siarad â phobl eraill sy'n gofalu amdanaf a siarad amdanaf fel bod pawb wir yn dod i fy nabod.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Edrychwch arna i nawr! (2-3 blwydd oed)

Dw i'n darganfod beth yw fy hawliau drwy ddysgu ac archwilio sut mae fy nghorff, pethau a phobl yn gweithio. Chwarae yw fy myd, a dw i'n gwyllo popeth sy'n digwydd o'm cwmpas ac yn dysgu drwyddo. Dw i'n dechrau meddwl am yr hyn dw i'n ei hoffi ac nad ydw i'n ei hoffi, ac yn mwynhau amser a lle i wneud fy newisiadau a'm penderfyniadau fy hun. Mae fy nghorff yn llawn teimladau mawr. Weithiau gallaf ddweud wrthyhych beth ydyn nhw, ac ar adegau eraill dw i wir ddim yn gwybod ac mae angen eich help arna i. Gall newid fod yn frwydychus imi, a dw i angen ichi fy helpu i ddeall a dod yn gyfarwydd â phethau newydd.

Rhowch ddigon o amser i wrando arnaf a chymryd diddordeb go iawn yn yr hyn sydd gen i i'w ddweud neu ei rannu. Gallaf eich helpu i ddeall sut dw i'n gweld y byd, gallwch ddod i mewn i 'fy myd'. Dw i'n ei chael yn haws siarad a chwarae gydag oedolyn dw i'n ei nabod ac yn ymddiried ynddo. Dw i'n cyfathrebu mewn llawer o ffyrdd drwy chwarae, iaith fy nghorff, ystum fy wyneb, tynnu llun a pheintio. Weithiau dim ond fy ngwyllo y mae angen ichi ei wneud i ddeall beth dw i'n ei ddweud neu'n ei deimlo. Weithiau efallai na fyddaf am rannu fy meddyliau a'm barn. Mae'n iawn imi fod yn dawel. Efallai y gallech roi cynnig ar amser neu ffordd arall.

Gwylwch fi'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5 mlwydd oed)

Dw i'n darganfod beth yw fy hawliau wrth imi gael fy nghefnogi i fynegi, creu a rhannu fy syniadau fy hun. Dw i angen ichi glywed y rhain, eu cydnabod a gweithredu arnyn nhw. Dw i'n dysgu mwy am bwy ydw i ac yn dilyn fy niddordebau fy hun. Chwarae yw fy ngofod dysgu. Dw i wir yn ceisio dysgu rhannu a dilyn rheolau syml. Dydy hyn ddim bob amser yn hawdd, a dw i angen ichi fy helpu pan fydd pethau'n anodd imi, ac ichi fy addysgu beth i'w wneud y tro nesaf. Dw i'n gallu gwneud llawer mwy o bethau nawr ond mi alla i wneud mwy byth, felly rhowch lawer o gyfleoedd imi ddysgu a rhoi cynnig ar bethau newydd.

Dw i'n defnyddio fy ngeiriau yn llawer mwy nawr, ond cofiwch ddal i edrych ar y ffyrdd eraill dw i'n cyfathrebu â chi. Dw i'n dweud cymaint wrthyhych chi. Dw i angen ichi ofyn imi ond ceisiwch feddwl hefyd sut dw i'n gweld y byd, a sut y byddwn i'n teimlo. Bydd hyn yn helpu pan fyddwch chi'n gwneud unrhyw benderfyniadau mawr. Dw i'n dysgu mwy am bwy ydw i a pha mor werthfawr ydw i. Dw i'n gwybod na allwch chi bob amser wneud yr hyn dw i ei eisiau, ond cofiwch ddweud pam er mwyn imi allu deall. Gallwch ddechrau defnyddio rhai o'r geiriau mwy nawr a siarad am fy hawliau gyda mi.



Sganiwch y Cod QR hwn am fwy o wybodaeth ynghylch Hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o ran hawliau dynol plant



Sganiwch y Cod QR hwn am fwy o wybodaeth ynghylch Plant yng Nghymru



Sganiwch y Cod QR hwn am fwy o wybodaeth ynghylch Comisiynydd Plant Cymru



Sganiwch y Cod QR hwn am fwy o wybodaeth ynghylch Chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru

